WG35.5.35

# GALARNAD

ER COFFADWRIAETH AM Y DIWEDDAR

## BARCH. MORGAN EFANS,

O DY YN Y CWM, BRYCHEINIOG,

*Gweinidog y Bedyddwyr, gynt yn y Pentref Newydd, swydd Faesyfed, ac yn ddiweddaf o Bant y Celyn, Brycheiniog,*

Yr hwn a ymadawodd â'r byd hwn, Awst 17, 1822, yn 89 oed.

---

Gan JAMES DAFIS,

*Gweinidog y Bedyddwyr yn Mhant y Celyn.*

---

Argraffwyd ar ddymuniad yr Eglwys yn Mhant y celyn.

---

" Yn ei dêg weinidogaeth
" Parhau flynyddau a wnaeth;
" Teithiodd, pregethodd y gwir
" Puredig yn mhob brodir." *D. Ionawr.*

---

Abertawy: Argraffwyd yn Swyddfa Seren Gomer, gan J. Harris.

---

1 RHYW newyddion blin galarus
Aml glywir ar y llawr,
Gwaith bod Angeu yn ddiarbed
'N tòri ein cyfeillion 'lawr;
Ar ryw foreu gwelais ymdrech,
A chyfyngder chwerw iawn,
Rhwng fy anwyl gâr ac Angeu—
Angeu gariodd cyn prydnawn.

X725 3023810

2 MORGAN EFANS, dan ei enw,
Oedd wr enwog yn ei ddydd;
Cryf a gwrol, cadarn, nerthol,
A diegwan yn y ffydd ;
'Roedd ei ddeall ef yn fywiog,
Gwelai'n eglur draw o bell ;
Synwyr cryf, serchiadau gwresog—
Anhawdd ydoedd cael ei well.

3 Ond er cymaint oedd gwroldeb
A ffyddlondeb EFANS ddewr,
Angeu, brenin dychryniadau,
'Ddaeth i'w dòri ef i lawr ;
Dyrnod farwol loeson angeu
'Brofodd ef yn chwerw iawn—
Ond, er trymed oedd yr ergyd,
Cafodd fuddygoliaeth lawn.

4 Er i Angeu dòri'r undeb
Rhwng ei gorff a'i enaid ef,
Pery'r undeb yn ddiddarfod
Rhyngddo ef a Brenin Nef:
Undeb bâr yw hwn yn angeu,
Er mor chwerw ydyw'r loes ;
'Rhwn a'i caffo byth caiff ganu,
Am rinweddau angeu'r groes.

5 Yr oedd llawer iawn o bethau
Gwych rhagorawl, hynod iawn,
O foreuddydd crefydd EFANS,
Hyd nes gorphen y prydnawn ;
'Roedd ei sel ef dros santeiddrwydd,
A'i dduwioldeb ar y llawr,
Yn rhoi imi le i gredu
Fod e'n canu'n uchel 'nawr.

6 Pan ddaeth Duw, o'i rad drugaredd,
I ymweld â'i gyflwr trist,
Fe'i dwysbigwyd ef i'w galon,
Profodd rym awdurdod Crist ;

Crynu'r oedd dan bwys ei bechod
  Ac euogrwydd creulon cry';
Cyfaddefai, mewn modd cyfiawn,
  Ei haeddiant oedd yn uffern ddu.
7 Ond 'nol gwel'd ei golledigaeth
  Hollol ynddo ef ei hun,
Cafodd olwg ar Waredwr,
  Hwn a ddichon achub dyn;
O! mor hyfryd ydoedd ganddo
  Glywed am yr Iesu gwiw,
'Rhwn fu farw ar Galfaria,
  I bechadur tlawd gael byw!
8 Fe anturiodd arno'i fywyd,
  Rho'dd ei hun i Frenin Nef,
Ac ymladdodd dan ei faner,
  O wir barch canlynodd ef;
Dwy ar hugain oedd ei oedran
  Pan y daeth i winllan Duw,
Ynddi gweithiodd yn wr nerthol
  Tra y bu ef yma'n byw.
9 Ar ol cael y fawr anrhydedd
  'Ddilyn Crist i'r dw'rllyd fedd,
A chydwledda gyda'i frodyr—
  O, mor felys oedd y wledd!—
Duw ei hun oedd yno'n gwenu,
  Bwrdd yn llawn bendithion rhad;
Trwy'r elfenau gwelai Geidwad
  Dyn, yn marw yn ei waed.
10 'Nawr wrth edrych ar y gwleddoedd
  Breision, llawnion, oedd yn rhad,
'Drefnwyd gan y Duw goruchaf,
  I'r pechadur mwyaf gaed,
Cofio wnai ei gydgreaduriaid
  Oedd ar faes y gelyn hyf,
Rhai oedd noeth, bron a newynu,
  Ac o fewn i'r carchar cryf.

11 Golwg wael oedd ar bechadur,
Fel yn gorwedd yn ei waed,
Heb un llygad i dosturio,
Nac un gobaith am ryddhâd;
Ond mor rhyfedd ac anfeidrol
Ogoneddus drefn gras,
Drefnwyd draw mewn arfaeth fore,
'Nawr mae yn dylifo 'maes!

12 Mawr gyflawnder cyfoeth Iesu,
A mawr serch at lwch y llawr,
Ddarfu rwymo Morgan Efans
I bregethu'r 'fengyl fawr;
'N ebrwydd y dechreuodd osod
Ardderchawgrwydd Crist i maes,
A'i fawr gariad at bechadur,
Ac anfeidrol olud gras.

13 Fel pregethwr fe ymdrechodd
Yn yr ardal byddai'n byw,
*Pentref Newydd* yn neillduol,
Lle dechreuodd gyda'i Dduw;
'Roedd mewn parch a bri'n gyffredin,
Gan rai uwch ac îs ei radd,
Ei ffyddlondeb oedd yn hynod—
Rhyfedd fraint oedd hon a ga'dd.

14 Trwy fawr ymdrech a diwydrwyd,
A sel fywiog at y gwaith
Fe gynnyddodd yn rhagorol,
Tyfu'n uchel iawn a wnaeth;
'Roedd yn deall yn dda odiaeth
Am drefn cadw dyn yn fyw,
Trwy farwolaeth ein Hanwylyd,
Iesu grasol, gwir Fab Duw.

15 Nid wy'n meddwl i fod nemawr
Yn cyd fyw ag e'n ei oes,
Gwedi cyrhaedd mwy gwybodaeth
Am drysorau angeu'r groes;

Nid rhyw swn gwag heb ddim sylwedd
Ydoedd swm ei bregeth ef,
Ond cyflawnder o faterion,
Llawn trysorau, perlau'r nef.

16 Er nad oedd ei lais mor beraidd
I dŷnu'r serch a denu'r glust;
Eto geiriau llawn o synwyr
I gryfhau eneidiau trist;
Mwy cyflawnder oedd yn gario
Nag allasai osod 'maes,
Mwy o ddeall nag o ddoniau—
'Roedd yn llawn o gyfoeth gras.

17 'Nawr wrth gofio ei 'madroddion
A'i gynghorion melys llawn,
Y mae eglwys *Pant y Celyn*
Yn och'neidio'n chwerw iawn;
Colli bugail fu mor ffyddlon
Hir flyneddau ar y llawr,
Sydd yn gwneyd yr eglwys yma
'Wylo a galaru'n fawr.

18 'Roedd yn deall trin dyscyblaeth,
Medrai drafod tŷ ei Dduw;
'Roedd yn fawr ei sel dros reol
Yr efengyl burwen wiw;
Er ei fod e'n gryf ei hunan,
Eto cydymdeimlai â'r gwan:
Yn ei fynwes rho'ir babanod
Codai'r gwan a'r llesg i'r lan.

19 Teimlo rhwymau i Dduw mewn diolch
Y mae'r eglwys yma 'nawr,
Am weinidog i'w bugeilio
Hwy mor ffyddlon ar y llawr:
Porthi'r ŵyn, a chynal gweiniaid,
Ymgeleddu'r henaint wnai;
D'wedai'n llym yn erbyn pechod,
A phob math o weithred gau.

20 Hir flyneddau bu'n y winllan,
Gweithiodd ynddi'n ddiwyd iawn,
O foreuddydd gwiw ei grefydd
Hyd nes machlud haul brydnawn ;*
Dwy ar hugain, fel y soniwyd,
Oedd ei oed wrth ddechreu'i daith,
A'r ail flwyddyn fe bregethai
Iesu a'i ras—O, hyfryd waith!

21 Deugain mlwydd, a thair yn rhagor,
Ydoedd oedran EFANS fwyn,
Pan ymrwymodd i fugeilio
Eglwys Duw, a phorthi'r ŵyn ;
Yn y *Pentref* fe'i hordeiniwyd
A dau enwog† gydag ef,
Rhai fu'n barchus weinidogion
Hyd nes galwyd hwy i dref.

22 Deugain mlwydd, a chwech yn rhagor,
Bu'n weinidog eglwys Duw ;
Naw a phedwar ugain mlynedd
Bu ef yn y byd yn byw ;
Ond er cy'd bu yn y frwydr,
Yn rhyfela ar faes y gwaed,
Daliodd ati hyd y diwedd,
Am fod Craig o dan ei draed.

23 Tra bu yma ar y ddaear,
Fe bregethodd lawer iawn ;
Tramwy wnai trwy Dde' a Gogledd,
Cryf a gwrol oedd ei ddawn ;
Fe yn gyntaf a anturiodd
I anialwch Gogledd dir,
I bregethu efengyl Iesu,
'Rhwn a fu dan hoelion hir.

---

* Un Sabbath y bu ef byw wedi bod yn y tŷ cwrdd yn llefaru.

† Y Parch. Rhys Jones, o'r Trallwyn, a'r Parch. John Efans, o'r Pentref Newydd.

24 *Dafydd Efans* da, o'r *Dolau*,
Yn gydymaith gydag ef,
Anturio wnaent i blith y dreigiau—
Rhoent eu pwys ar Frenin Nef;
Ond er bod yn mhlith llewpardiaid
A bwystfilod fawr a mân,
Hwy orchfygent ffordd y cerddent,
Am fod Iesu Grist yn mlaen.

25 Yno'r aethant â'r perl gwerthfawr,
Yr hwn gynnwysir yn y gair,
'Gloddiwyd allan ar Galfaria,
Can' mil mwy ei werth nag aur;
Peraroglau'r gair wasgárwyd,
Fel yr enaint gwerthfawr trud;
Duw ei hun oedd yn eu llwyddo—
Aed yn mlaen nes llenwi'r byd!

26 De' a Gogledd sy'n ochneidio
Ac yn wylo yn chwerw iawn,
Ffordd bu Efans yn ymdeithio
I bregethu foreu a nawn;
Yn enwedig yn *Nglyn Ceiriog*,
Lle ca'dd alwad taer i ddo'd,
I bregethu efengyl Iesu,
Ac i osod maes ei glod.

27 Ond 'roedd Efans hoff mor barchus
Yn yr ardal daethai'r byd;
Ei holl frodyr a'i chwiorydd
Ddalient afael ynddo 'i gyd;
Yn eu plith bu'n foddlon aros
Hyd nes d'od ei daith i ben,
Iddo groesi'r hen Iorddonen,
A myn'd mewn i'r nefoedd wèn.

28 Pan yr aeth i groesi'r afon,
'Roedd yn canu'n beraidd iawn;
Gwelai'r nef o'i flaen yn agor,
Cafodd olwg hyfryd iawn;

Tystio wnai bod yr athrawiaeth
A bregethodd yn ei fyw
Yn ddigonol erbyn marw,
Ac yn ol ewyllys Duw.

29 Yn iach! bellach, Morgan Efans,
'Wela'i byth mo honot ti,
Mewn Trimisgwrdd* na Chymanfa,
Yma yn ein hardal ni!
Ti ehedaist uwch cymhylau
I'r trigfanau tawel fry!
Gwaith sydd genyt 'nawr yw canmol
Yr hwn a fu ar Galfari!

* *Cwrdd Cwarter.*

30 Anwyl frodyr a chwiorydd
Sydd yn aros eto 'nol,
Rhaid i ninnau rodio'r llwybr
Na ddychwelwn byth yn ol!
O, am nabod grym duwioldeb!
O, am nabod Iesu'n rhan!
O'i adnabod mae yn ddigon—
Yn ei freichiau d'of i'r lan.

31 *Martha! Martha!* paid ag wylo!
Ond ymddiried yn dy Dduw!
Er it' golli priod hawddgar,
Y mae'r Iesu eto'n fyw;
Grym i gofio am y boreu,
Tawel godi i'r lan o'r bedd,
Oll ar wedd ein Priod Iesu,
Byth cawn nofio yn ei hedd!

32 *Josia Efans* a'i chwaer *Nani*,
*John* a *Mari* yr un wedd,
Pedwar plentyn Morgan Efans,
Dd'ont i'r lan yn hardd o'r bedd!
Yno'r unant yn y nefoedd
I glodfori'r Iesu mawr:
O, am gael bod yno hefyd,
Fyddo'n gweddi ninnau 'nawr!

DIWEDD.